TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR

LLENYDDIAETH GYMRAEG

IONAWR 2017

© WJEC CBAC Cyf.

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en

Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

Adroddiad Ystadegol Blynyddol

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

Llenyddiaeth Gymraeg

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

Ionawr 2017

Uned 1 - Barddoniaeth

Haen Uwch a Haen Sylfaenol

Dyma'r tro cyntaf i'r papur hwn ymddangos ar ei ffurf bresennol, ac roedd y gofyniad yn dra gwahanol i ofyniad y papur llenyddiaeth blaenorol. Dau brif wahaniaeth oedd mai papur barddoniaeth yn unig yw hwn, a'r gwahaniaeth arall yw fod angen cymharu dwy gerdd – cerdd osod a cherdd nas astudiwyd o'r blaen.

Yn gyffredinol, roedd yr ymgeiswyr wedi ymdopi'n dda gyda'r dasg o gymharu'r ddwy gerdd, y gerdd osodedig a'r gerdd newydd. Mae'r canolfannau i'w canmol am y gwaith paratoi amlwg oedd wedi digwydd, gyda'r rhan fwyaf wedi pwysleisio'r elfen o gymharu wrth yr ymgeiswyr. Byddai'n werth i bob canolfan sicrhau fod yr eirfa gymharu gan bob ymgeisydd e.e. 'Yn wahanol i…' Ar y naill law… ar y llaw arall…' 'Hefyd, mae'r ail gerdd…' 'Serch hynny…'

Haen Uwch

Roedd gwahaniaeth yn y ffordd yr oedd yr ymgeiswyr wedi mynd ati i ateb. Roedd rhai wedi canolbwyntio ar un gerdd yn gyntaf ac yna yr ail gerdd gan fynd ati i gymharu unwaith neu ddwy yn ystod y traethawd, cyn cynnwys ychydig mwy o gymharu tua'r diwedd. Roedd eraill wedi mynd ati i drafod y cerddi gyda'i gilydd gan drafod yn gyson. Ychydig iawn a oedd wedi methu â chymharu o gwbl.

Ychydig o ymgeiswyr oedd wedi dangos dealltwriaeth gyflawn o neges cerdd 'Yr Hen Fflat'. Roedd y rhan fwyaf wedi nodi ei bod yn gerdd sy'n gorffen yn ddiobaith, heb ddeall y cyfeiriad nad oedd y 'llenni wedi cau'n llwyr yn y co'. Roedd y rhai a oedd wedi deall hyn yn codi safon eu gwaith.

Byddai defnyddio mwy o eiriau ymestynnol fel 'awgrymu' a 'cynrychioli' yn sicrhau bod yna fwy o ddyfnder eto yn y drafodaeth. Roedd y goreuon wedi sylwi fod y 'stormydd' yn y gerdd 'Yr Hen Fflat' nid yn unig yn stormydd byd natur ond hefyd y gallent fod yn cynrychioli stormydd bywyd yr un a fu'n byw yno.

Wrth drafod arddull y cerddi, roedd y goreuon yn gallu dadansoddi'n dreiddgar, ac yn llwyddo i ddangos dyfnder wrth egluro effeithiolrwydd y nodwedd. Roedd y rhai yn y band marciau is yn nodi'r nodwedd yn unig, ac yn cynnwys brawddegu rhy gyffredinol fel y nodir yn yr enghreifftiau haen sylfaenol.

Mae angen bod yn ofalus wrth drafod cyflythrennu. Mae angen i sŵn y cyflythrennu gyfleu'r syniad. Nid yw'r cyflythrennu 'ceisio codi' yn 'awgrymu tristwch y dyn digartref'.

© WJEC CBAC Cyf.

Cafwyd dadansoddiad treiddgar o'r neges a'r themâu gan y goreuon, gan blethu hyn yn naturiol gyda'r drafodaeth ar y cynnwys.

Haen Sylfaenol

Rhaid canmol yr atebion strwythuredig. Roedd atebion y goreuon yn hawdd iawn eu dilyn, gyda rhai yn cymharu'n ddeallus o'r cychwyn. Roedd eraill yn llwyddiannus yn trafod cynnwys y cerddi a'r arddull yn drylwyr cyn symud ymlaen i gymharu'r cerddi. Serch hynny, gwelwyd rhai'n cyflwyno'r gerdd gyntaf yn arbennig o fanwl, ond byr ac arwynebol iawn oedd yr ail gerdd o ran cynnwys, neges ac arddull.

Prin iawn oedd yr ymgeiswyr oedd wedi camddeall cynnwys y cerddi yn llwyr. Roedd y rhan fwyaf yn dangos rhyw elfen o ddealltwriaeth, hyd yn oed yn yr ail gerdd.

Cafwyd rhai ymgeiswyr yn crynhoi cynnwys y ddwy gerdd i mewn i frawddeg neu ddwy ar y cychwyn, yna'n mynd yn syth i drafod yr arddull. Yn anffodus, roedd y drafodaeth ar effaith y nodweddion arddull yn wan gan rai, ac felly ni ellid profi eu bod wedi deall y cynnwys. Mae'n rhaid dangos dealltwriaeth o'r cynnwys i sicrhau'r bandiau marciau uwch.

Roedd cyfeiriad cyson at y technegau arddull, a'r mwyafrif wedi cyfeirio at o leiaf bedair nodwedd arddull. Roedd rhai yn cael trafferth egluro effaith y nodwedd. Dylid osgoi rhai ymadroddion stoc wrth drafod e.e. 'gwneud llun yn fy mhen o . . .' 'gwneud i fi fod eisiau darllen mlaen', 'mae'r ansoddair yn disgrifio'r peth yn effeithiol yn fy marn i.' Mae angen mwy o fanylder a bod yn fwy penodol.

Roedd rhai o'r ymgeiswyr yn ateb yr isgwestiynau y tu hwnt i gyd-destun y cerddi, e.e roedd un ymgeisydd wedi ysgrifennu 6 ochr yn nodi pam roedd siarad ar y we yn beryglus a bod angen siarad wyneb yn wyneb a heb sôn fawr ddim am gynnwys y cerddi.

O ran datblygu ar gyfer y dyfodol – da o beth fyddai i ambell ganolfan addysgu'r disgyblion i gofio bod o leiaf ryw gyfeiriad at neges y cerddi – dyma elfen oedd ar goll gan sawl ymgeisydd.

Mae angen sicrhau bod y disgyblion yn gwybod yr eirfa allweddol o leiaf e.e 'y cerddi', 'y gerdd', 'y bardd', 'Mae'r ddwy gerdd…' 'y pennill hwn' 'y llinell hon'.

Diolch i'r holl ganolfannau am y ffordd y maen nhw wedi ymroi i addysgu'r elfen newydd hon o'r fanyleb. Mae'r ymgeiswyr ar y ddwy haen wedi ymateb yn gadarnhaol i'r newid, ac wedi dangos bod y mwyafrif wedi elwa o'r broses o gymharu cerddi.

Yn lle dibynnu'n ormodol ar ddysgu nodiadau athrawon fel yr oedd yn digwydd ar adegau yn y gorffennol, mae'r ymgeiswyr wedi datblygu i fod yn rhai sy'n gallu defnyddio gwybodaeth flaenorol, a'i chymhwyso i geisio cymharu a dangos dealltwriaeth o'r ddwy gerdd ar y papur arholiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Ffôn: 029 2026 5000
Ffacs: 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Cyf.